f

Proses Uwchgyfeirio Pryderon ar gyfer Myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Staff a Phartneriaid y Lleoliad Ymarfer

Escalation of Concerns Process for Health and Social Care Students, Staff and Placement Practice Partners

| **Diwygiwyd** | **Dyddiad** | **Pwrpas cyhoeddi/Disgrifiad o'r newid** |
|---|---|---|
| 1. | Ebrill 2016 | Cyhoeddiad Cyntaf |
| 2. | Gorffennaf 2019 | Diwygiadau i gynnwys yr holl ddisgyblaethau myfyrwyr a phrosesau siart llif diwygiedig. |
| 3. | | |

| **Swyddog Polisi** | **Uwch Swyddog Cyfrifol** | **Cymeradwywyd gan** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| Pennaeth yr Ysgol | Cyfarwyddwr Ysgol dros Addysgu a Dysgu | Tîm Addysg BCUHB<br>Arweinwyr Rhaglen SOHS ac Arweinydd Addysg Bydwreigiaeth | |

**Rhagarweiniad**

Gall myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol, staff iechyd a gofal cymdeithasol a staff y sefydliad addysg academaidd sy'n gysylltiedig â goruchwylio ac asesu myfyrwyr mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, fod yn bryderus ar unrhyw adeg ynglŷn â lleoliad ymarfer. Mae'r polisi hwn yn nodi'r broses i'w dilyn i sicrhau bod pryderon a fynegir yn cael eu hymchwilio a'u rheoli'n briodol ac yn gymesur yn unol â pholisïau a threfniadau Prifysgol Bangor (darllenwch y Weithdrefn  Dysgu mewn lleoliad 2018) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a  GIG eraill, a pholisïau a threfniadau partneriaid ym maes gofal cymdeithasol, a'r sector preifat a'r trydydd sector. Nid yw'r ddogfen bolisi hon yn newid yr angen i bob myfyriwr iechyd a gofal cymdeithasol roi gwybod am ddamweiniau iechyd a diogelwch neu ddamweiniau y bu bron iddynt â digwydd yn unol â pholisïau a threfniadau iechyd a diogelwch partneriaid ymarfer.

Mae'r holl bartneriaid sy'n ymwneud ag addysg iechyd a gofal cymdeithasol yn cydnabod bod rhaid cael safonau ymarfer uchel os yw cleifion a defnyddwyr gwasanaethau i gael eu hamddiffyn a derbyn gofal o ansawdd da ac os yw myfyrwyr am weithio mewn amgylchedd diogel a chyflawn. Mae amgylcheddau dysgu iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd da yn cyfrannu at brofiad dysgu cadarnhaol i fyfyrwyr. Gall creu diwylliant o fod yn agored a chroesawu her gadarnhaol a beirniadaeth adeiladol gynyddu hyder yn y Bwrdd Iechyd a phenderfyniad partneriaid ymarfer i wella ansawdd gofal, yn unol â Rhyddid i Lefaru (Francis, 2015) a'r datganiad ar y cyd ar ddyletswydd broffesiynol gonestrwydd (2014) a Chanllawiau NMC (NMC, 2015).

Mae gan yr holl weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a myfyrwyr sy'n gweithio tuag at gofrestriad proffesiynol ddyletswydd gonestrwydd sef cyfrifoldeb proffesiynol  i fod yn onest pan aiff pethau o chwith. Gall caniatáu i bryderon barhau heb ymchwilio iddynt a chymryd camau gweithredu effeithio ar wasanaethau a morâl ac arwain at ganlyniadau difrifol posibl. Mae'r holl bartneriaid yn cydnabod bod gan bob myfyriwr gofal iechyd ar leoliad ymarfer ddyletswydd a hawl i fynegi pryderon am ymarfer trwy ddod â nhw i sylw'r rhai sy'n gallu gwneud rhywbeth amdanynt mewn ffordd gefnogol. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â pholisïau chwythu'r chwiban y brifysgol a sefydliadau partner gan gynnwys Polisi Lleisio Pryder / Chwythu'r Chwiban BCUHB WP4.

Mae gan yr holl staff a myfyrwyr gyfrifoldeb i roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am unrhyw bryderon lle mae achos rhesymol i amau bod oedolyn neu blentyn mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth neu'n dioddef niwed neu gamdriniaeth. Mae Tîm Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Diogelu'r Awdurdod Lleol yn rhoi cyngor a chefnogaeth i staff a myfyrwyr ynglŷn ag unrhyw bryderon diogelu neu achosion o atgyfeirio oedolion neu blant sydd mewn perygl.

**Egwyddorion Sylfaenol**

- Bydd holl staff y bartneriaeth yn annog ac yn cynorthwyo i ddatblygu cyfathrebu da ac amgylchedd dysgu tryloyw a chefnogol.
- Bydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael sicrwydd, cyn belled ag y bo modd, y disgwylir y safonau gwasanaeth uchaf a bod trefniadau yn eu lle i alluogi myfyrwyr gofal iechyd fynegi pryderon os na chyflawnir y safonau hyn.

- Bydd myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol, staff y sefydliad addysg academaidd neu staff sy'n ymwneud â goruchwylio ac asesu myfyrwyr mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hannog i fynegi pryder i'r unigolyn sy'n gysylltiedig â'r pryder (lle bo'n berthnasol) a / neu gyda goruchwylwyr y lleoliad ymarfer, aseswyr, staff addysg a / neu reolwr y lleoliad ymarfer.
- Gall myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol, staff y sefydliad addysg academaidd neu staff sy'n ymwneud â goruchwylio ac asesu myfyrwyr mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n mynegi unrhyw bryder, gan gynnwys pryder am ymarfer annerbyniol, ddisgwyl i'r rhain gael eu hymchwilio heb ofni cael eu cosbi am eu mynegi.
- Ymdrinnir â phob pryder yn brydlon ac yn sensitif a chyda chyfrinachedd priodol heb wynebu cosb.
- Bydd uwch staff gofynnol yn y Brifysgol a'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid lleoliadau ymarfer yn cael gwybod ar unwaith am unrhyw faterion a allai effeithio ar leoliadau clinigol ac ansawdd yr amgylchedd dysgu.
- Cynhelir asesiad risg ar y cyd gan y partner lleoliad ymarfer a'r Brifysgol lle mae lleoliad clinigol wedi'i nodi fel un lle mae angen uwchgyfeirio pryder.
- Bydd yr achwynydd a'r holl staff addysg neu bartner ymarfer perthnasol yn cael gwybod am gynnydd ac am ganlyniadau unrhyw ymchwiliad mewnol, gan sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei barchu a bod ymchwiliadau'n cael eu harwain gan drydydd parti.
- Bydd canlyniadau ymchwilio ac argymhellion ar gyfer mesurau i'w cymryd yn cael eu cofnodi a'u monitro gan arweinwyr a phartneriaid proffesiynol. Bydd gwersi a ddysgir o achosion sydd wedi'u datrys yn cael eu bwydo yn ôl i'r cwricwlwm, lle mae pwyslais cryf ar werthoedd, eiriolaeth a ffactorau dynol mewn perthynas â digwyddiadau niweidiol.

**Y Broses Uwchgyfeirio**

Dylai unrhyw bryderon, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag oedolion neu blant sydd mewn perygl, gael eu trafod yn gyntaf gyda mentor / goruchwyliwr / aseswr y myfyriwr neu'r addysgwr ymarfer a / neu'r person sy'n gyfrifol am y lleoliad ymarfer i hwyluso datrysiad lle bo hynny'n bosibl. **(Siart llif A).**

Os yw pryder heb ei ddatrys, neu'n ymwneud ag oedolion neu blant sydd mewn perygl, neu os na ellir myfyrwr trafod y pryder gyda'r mentor a / neu'r person sy'n gyfrifol am y lleoliad ymarfer, dylid cysylltu â Thiwtor Cyswllt / Tiwtor Personol y Brifysgol **(Siart llif B).**

**Dylid rhoi gwybod i'r Ysgol ynglŷn â phryderon am fyfyrwyr mewn perthynas ag ymddygiad, proffesiynoldeb neu unrhyw ymddygiad sy'n achosi pryder trwy'r ffurflen a'i anfon at Professional Issues@bangor.ac.uk**

## Siart llif A

**Pryder mewn perthynas â:**
**GOFAL CLEIFION ond NID PRYDERON YNGLŶN AG AMDDIFFYN OEDOLION NEU BLANT MEWN PERYGL;**
**CEFNOGAETH MENTOR:**
**AMGYLCHEDD DYSGU**

Trafodwch y pryder i ddechrau gyda'r unigolyn/unigolion sy'n gysylltiedig â'r pryder (defnyddwyr gwasanaeth, myfyrwyr, addysgwyr) a / neu'r person sy'n gyfrifol am y lleoliad ymarfer
Efallai bydd myfyrwyr angen cefnogaeth eu goruchwyliwr ymarfer, aseswr neu diwtor cyswllt / tiwtor personol i drafod eu pryderon

↓

**Asesu Canlyniad y drafodaeth**

| **Wedi ei ddatrys** | **Heb ei ddatrys** |
| --- | --- |
| Monitro i sicrhau bod y pryder wedi cael sylw | neu<br>Methu trafod gyda'r mentor / goruchwyliwr / aseswr / addysgwr clinigol a / neu'r person sy'n gyfrifol am y lleoliad ymarfer |

↓

**Rhaid gweithredu fel a ganlyn**

| | |
| --- | --- |
| Monitro i sicrhau bod y pryder yn cael sylw:<br>• Os na fydd y pryder yn ailgodi - dim gweithredu pellach<br>• Os bydd y pryder yn ailgodi - parhau â siart llif B. | Cysylltu â thrafod y pryder gyda'r Tiwtor Cyswllt / Tiwtor Personol a fydd yn:<br>• Rhoi cyngor a chefnogaeth gychwynnol / barhaus<br>• Gofyn am adroddiad ysgrifenedig o'r pryderon a gweithredu fel a ganlyn: |

Tiwtor cyswllt / tiwtor personol a / neu arweinydd y rhaglen / cwrs neu fydwraig arweiniol ar gyfer addysg i hwyluso cyfarfod rhwng y partïon cysylltiedig, yn cynnwys y myfyriwr a rheolwr y lleoliad, i annog adfyfyrio a datrys ar lefel leol.
Os na cheir datrysiad, neu mae'r pryderon blaenorol yn ailgodi, dilynwch SIART LLIF B.

**Siart Llif B:** Os nad yw'r pryder wedi ei ddatrys, neu mae'r pryderon blaenorol yn ailgodi, dilynwch siart llif B

| | |
|---|---|
| Uwchgyfeirio | • Bydd Uwch Addysgwr Prifysgol Bangor/Arweinydd Proffesiynol/Arweinydd Addysg Bydwreigiaeth ac uwch arweinydd maes ymarfer yn uwchgyfeirio'r pryder i Gyfarwyddwr Cyswllt Rheoleiddio ac Addysg Broffesiynol BCUHB a'r Pennaeth Addysg a'r pryder yn cael ei ychwanegu at y Gofrestr Uwchgyfeirio Pryderon<br>• Os yw cartref nyrsio yn gysylltiedig, anfonir adroddiad am y pryderon at y Nyrs Arweiniol Cynradd a'r Gymuned a fydd yn rhan o'r asesiad risg<br>• Os yw pryder yn ymwneud ag amddiffyn oedolion neu blant sydd mewn perygl, rhoddir gwybod ar unwaith i Dîm Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Diogelu'r Awdurdod Lleol, a gorau oll o fewn 24 awr ar ôl i'r pryder gael ei godi (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014) |
| Cyfarfod | • Trefnir cyfarfod gyda'r unigolyn neu'r unigolion y mae'r pryder yn gysylltiedig â nhw'n uniongyrchol (a fydd yn cael cefnogaeth lawn) i gael gwybodaeth am y sefyllfa ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol |
| Asesiad risg | • Bydd yr Uwch Addysgwr/Arweinydd Proffesiynol ac Arweinydd Addysg Bydwreigiaeth os oes lleoliad bydwreigiaeth yn gysylltiedig, ar y cyd â staff BCUHB, yn cynnal asesiad risg ar unwaith o'r lleoliad ac yn cymryd camau priodol<br>• Yn dilyn Asesiad Risg, os bydd angen, bydd y myfyriwr/myfyrwyr yn cael eu hadleoli i leoliad arall<br>• Bydd yr Uwch Addysgwr / Arweinydd Proffesiynol / Arweinydd Addysg Bydwreigiaeth ar y cyd â BCUHB / staff partner yn penderfynu a oes angen uwchgyfeirio'r pryder i'r cyrff rheoleiddio NMC / HCPC / GPhC |
| Ymchwilio | • Bydd y darparwr lleoliad yn penodi swyddog ymchwilio ac yn dechrau'r ymchwiliad<br>• Bydd adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad yn cael ei anfon ymlaen at Gyfarwyddwr Cyswllt Rheoleiddio ac Addysg Broffesiynol a Phennaeth Addysg BCUHB a fydd yn rhoi gwybod i'r Uwch Addysgwr / Arweinydd Proffesiynol, Arweinydd Addysg Bydwreigiaeth os yw'n gysylltiedig â lleoliad bydwreigiaeth, a'r myfyriwr/myfyrwyr sy'n gysylltiedig. |
| Ar ôl yr Ymchwiliad | Ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben:<br>• Rhoddir ystyriaeth i anghenion addysgol a chefnogaeth briodol ar gyfer staff y lleoliad ymarfer<br>• Cynhelir Archwiliad Addysgol - os oedd y lleoliad ymarfer wedi'i dynnu o'r cylch lleoliadau ymarfer yn flaenorol<br>• Adleoli'r myfyrwyr ar ôl cwrdd â'r holl feini prawf gofynnol ac yn dilyn asesiad risg<br>• Dylid cofnodi'r mater ar y gofrestr gwersi a ddysgwyd - rhoi ystyriaeth iddo mewn cyfarfodydd ar y cyd o'r Bwrdd Iechyd/grŵp addysg partner (PEQAG) a grwpiau goruchwylio rhaglenni addysg a gymeradwywyd gan y Brifysgol e.e. Bwrdd Cwrs/ Pwyllgor Addysgu a Dysgu/Grŵp Tasg Rhaglenni Dysgu Proffesiynol. |